

ACHOS Y DYDDIADUR



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHAGAIR

Dyddiad/amser y cyfarfod	30/11/26 am 11:30
Â phwy mae'r Gweinidog yn cyfarfod?	██████████, Cyfarwyddwr YesCymru, ac ██████████, Swyddog Cyfathrebu YesCymru
Pwy ofynnodd am y cyfarfod?	██████████
Prif bwrpas	Bydd YesCymru yn rhoi diweddariad i'r Gweinidog ar eu hymgyrch, ei hamcanion a'i hamserlen.
A oes agenda wedi'i chytuno?	Na
Pa swyddogion sy'n cefnogi'r Gweinidog?	██████████, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi a Diwygio Cyfansoddiadol
Lleoliad y cyfarfod	CP2, TBC
Materion ymarferol eraill	Dim

BRIFF ACHOS Y DYDDIADUR

Diben y cyfarfod

Gofynnwyd am y cyfarfod gan [REDACTED], Cyfarwyddwr YesCymru, er mwyn rhoi diweddariad i chi ar amcanion ac amserlen eu hymgyrch dros gynnal refferendwm ar annibyniaeth i Gymru.

Gwybodaeth a llinellau i'w cymryd

Gwahoddiadau eraill gan YesCymru

- Rydych wedi derbyn y gwahoddiad gan YesCymru i ymuno â nhw yn eu stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar 6 Awst i drafod dyfodol cyfansoddiadol Cymru.
- Mae YesCymru hefyd wedi gwahodd y Prif Weinidog yn ddiweddar i gymryd rhan mewn digwyddiad a gynhelir gan Ireland's Future ym Melfast ar 23 Medi. Bydd y digwyddiad yn archwilio dyfodol cyfansoddiadol, democratiaeth a chydweithrediad rhwng y cenhedloedd. Ni dderbyniodd y Prif Weinidog y gwahoddiad oherwydd y sensitifrwydd gwleidyddol parhaus sy'n ymwneud â materion cyfansoddiadol yng Ngogledd Iwerddon.

Comisiwn Cenedlaethol

- Wrth ystyried materion cyfansoddiadol a'r pwerau sydd eu hangen ar Gymru, ein blaenoriaeth bob amser yw sut y gall hynny wella bywydau pobl.
- Dyna pam rydym yn sefydlu Comisiwn Cenedlaethol parhaol i Gymru.
- Bydd y Comisiwn yn dod â thystiolaeth, ymchwil a safbwyntiau pobl ledled Cymru ynghyd i helpu i lywio penderfyniadau am ddyfodol cyfansoddiadol Cymru.
- Rydym yn credu'n gryf mai pobl Cymru ddylai fod wrth wraidd penderfyniadau am ddyfodol gwleidyddol a chyfansoddiadol Cymru.
- Rydym yn uchelgeisiol dros Gymru. Rydym am weld ein cenedl yn cyflawni ei llawn botensial, gyda'r hyder i lunio ei dyfodol cyfansoddiadol ei hun.
- Mae llywodraeth effeithiol yn dibynnu ar gael y pwerau, yr adnoddau a'r modd i lywodraethu mor effeithlon â phosibl yma yng Nghymru.
- Ni fydd y Comisiwn yn dechrau o'r newydd. Bydd yn adeiladu ar waith cadarn ac etifeddiaeth y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.
- Boed hynny ym meysydd cyfiawnder, trafnidiaeth neu bwerau economaidd, ein ffocws yw sut y gall diwygio cyfansoddiadol wneud gwahaniaeth ymarferol i cymunedau Cymru.

- Bydd y Comisiwn Cenedlaethol yn chwarae rôl ganolog wrth helpu i lunio'r gwaith hwn, gan sicrhau bod penderfyniadau'r dyfodol wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn ac yn adlewyrchu safbwyntiau pobl ledled Cymru.

Blaenoriaethau o ran datganoli ehangach

- Rydym yn canolbwyntio ar y pwerau a fyddai'n ein galluogi i sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cymru, cryfhau atebolrwydd, a gwenued yn siwr bod mwy o benderfyniadau'n cael eu gwneud yma yng Nghymru:
 - **Cyfiawnder a phlisma** – fel y gellir eu cysylltu'n well â gwasanaethau datganoledig fel iechyd a thai.
 - **Rheilffyrdd** – gan gynnwys mynd i'r afael â'r annhegwch cyllido sy'n deillio o HS2.
 - **Ystad y Goron ac ynni** – er mwyn sicrhau bod Cymru'n elwa'n llawn ar ei hadnoddau naturiol ei hun.
 - **Cyllid a hyblygrwydd cyllidol** – gan gynnwys cyllid tecach, mwy o bwerau benthyca, dileu cyfyngiadau diangen y Trysorlys ar fynediad at Gronfa Wrth Gefn Cymru, pwerau ychwanegol dros dreth incwm, datganoli'r Doll Teithwyr Awyr, a'r gallu i ddatblygu treth ar dir gwag.
- Mae hyn hefyd yn fater o degwch: sicrhau nad yw Cymru dan anfantais o dan y system bresennol, a'i bod yn cael yr un cyfle â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig i gyflawni dros ei phobl.

Llunio taith gyfansoddiadol Cymru

- Rwy'n glir ynghylch y cyfeiriad rwyf am ei weld i Gymru, ond rwyf yr un mor glir mai dim ond drwy fynd â phobl gyda ni y gall newid cyfansoddiadol bara. Yn hytrach na chanolbwyntio ar y nod terfynol, fy mlaenoriaeth yw gosod y seiliau sy'n galluogi pobl i chwarae rhan go iawn wrth lunio dyfodol Cymru. Mae hynny'n golygu cryfhau'r setliad presennol lle bo modd, meithrin diwylliant cryfach o ddemocratiaeth gyfranogol, a chreu'r hyder a'r gofod i bobl drafod dyfodol cyfansoddiadol Cymru.
- Mae'r Comisiwn Cenedlaethol yn un o'r ffyrdd y gallwn helpu pobl i gymryd rhan ystyrlon wrth lunio dyfodol Cymru. Ei rôl fydd cefnogi trafodaeth wybodus, ehangu cyfranogiad, a helpu i greu'r hyder a'r gofod i bobl drafod cwestiynau cyfansoddiadol mawr sy'n wynebu Cymru.
- Bydd gan lawer ohonom safbwyntiau am ddyfodol cyfansoddiadol hirdymor Cymru. Ond os yw newid am bara, rhaid iddo fod wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gyhoeddus, cyfranogiad democrataidd a chydysyniad y cyhoedd. Dyna pam mae adeiladu'r seiliau hynny mor bwysig.